
PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872

Rhifyn 26 - Gwanwyn 2017



# Newyddion ABER

## Penodi Is-Ganghellor newydd

**Mae'r Athro Elizabeth Treasure wedi'i phenodi yn Is-Ganghellor y Brifysgol a bydd yn cychwyn ar ei swydd ddydd Llun 3 o Ebrill.**

Ar hyn o bryd, yr Athro Treasure yw Dirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Caerdydd lle mae ganddi gyfrifoldeb dros feysydd allweddol gan gynnwys prosiectau ym maes cynllunio strategol, adnoddau a datblygu cynaliadwy yn ogystal â staffio ac ystadau.

Mae gan yr Athro Treasure radd BDS mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol ynghyd â doethuriaeth o Brifysgol Birmingham.

Yn dilyn ystod o swyddi clinigol yn y Gwasanaeth Iechyd rhwng 1980 a 1990, symudodd yr Athro Treasure i Seland Newydd lle'r oedd ganddi ddwy rôl fel Deintydd Iechyd y Cyhoedd ac fel Darlithydd, yna'n Uwch Ddarlithydd, ym Mhrifysgol Otago.

Yn 1995, penodwyd yr Athro Treasure Uwch yn Ddarlithydd ac Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus Deintyddol yng Ngholeg Meddygaeth Prifysgol Cymru. Cafodd ei dyrchafu'n Athro yn 2000 a'i phenodi'n Ddeon a Rheolwr Cyffredinol yr Ysgol a'r Ysbyty Deintyddol yn 2006.

Yn 2010, yr Athro Treasure oedd y fenyw gyntaf i gael ei phenodi'n Ddirprwy Is-Ganghellor ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae'r Athro Treasure eisoes wedi dechrau ymweld ag Aberystwyth ac wedi mwynhau cyfarfod cydweithwyr a myfyrwyr a dysgu mwy am y Brifysgol. Mae hi'n edrych ymlaen at wneud mwy o hyn ar ôl iddi gyrraedd ym mis Ebrill.

Bydd yr Athro John Grattan yn parhau yn Is-Ganghellor Dros Dro tan i'r Athro Treasure ddechrau yn ei swydd ymhen dau fis.


**2 Aberystwyth Hygyrch**




**5 Y Brifysgol yn coffáu myfyriwr a syrthiodd**



**6 Agor cyfleusterau campfa newydd**



**8 Yn ogystal â'r swydd bob dydd**



**10 Anhwylder straen wedi trawma**



Cyhoeddir Newyddion Aber gan y **Tîm Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus,** Prifysgol Aberystwyth.
**Ffôn:** 01970 622578
**E-bost** cyfathrebu@aber.ac.uk.
Bydd y rhifyn nesaf o Newyddion Aber ar gael ym mis **Ebrill**.
Dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf yw **Dydd Llun 27 Chwefror**.





Uchod: Cyfarpar llwyfan gyda ramp yn cael ei defnyddio yn ystod Seremoni Graddio 2016 yn galluogi myfyrwyr mewn cadair olwyn i fynd ar y llwyfan

Isod: Mae'r lifft yn Undeb y Myfyrwyr wedi gwneud pob rhan o'r adeilad yn hygyrch i bob myfyriwr

Mannau parcio ceir cwbl hygyrch rhwng adeilad Cledwyn a Chanolfan Croesawu Myfyrwyr

# Aberystwyth Hygyrch

## Mae'r Brifysgol yn gweithio'n barhaus i wella hygyrchedd ei champysau, ei chyfleusterau a'i gwasanaethau. Phil Maddison, Cyfarwyddwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn disgrifio datblygiadau diweddar:

Caiff prosiectau i wella hygyrchedd eu cydgysylltu gan y Grŵp Aberystwyth Hygyrch, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r Brifysgol – iechyd a diogelwch, ystadau, cefnogaeth myfyrwyr a swyddogaethau gwasanaethau'r campws, yn ogystal â chynrychiolaeth myfyrwyr gan Swyddogion Undeb y Myfyrwyr.

Un o'r prosiectau diweddar a gefnogwyd gan y grŵp oedd gosod lifft yn adeilad Undeb y Myfyrwyr, sydd wedi gwneud pob rhan o'r adeilad yn hygyrch i bob myfyriwr. Roedd y prosiect yn gryn ymgymeriad, ac fe'i gwnaed yn bosibl drwy waith eithriadol gan staff o'r Adran Datblygu Ystadau a chydweithrediad ac ymrwymiad llawn Undeb y Myfyrwyr.





Mae prosiectau diweddar eraill a gefnogwyd gan y Grŵp Aberystwyth Hygyrch yn cynnwys:

- Uwchraddio'r lifftiau presennol yn adeiladau Gwyddorau Ffisegol a Llandinam;
- Uwchraddio'r systemau Deaf Alerter (system negeseua a rhybuddio larwm tân seiliedig ar radio) drwy'r Brifysgol er mwyn eu gwella a'u hymestyn;
- Creu mannau parcio ceir cwbl hygyrch rhwng adeilad Cledwyn a'r Ganolfan Croesawu Myfyrwyr;
- Ailwampio toiledau llawr isaf adeilad Cledwyn ar gyfer hygyrchedd llwyr;
- Pwrcasu meddalwedd i gynorthwyo unigolion gyda gwahaniaethau dysgu penodol, sydd ar gael ar bob cyfrifiadur cyhoeddus ar draws y Brifysgol;
- Cefnogi datblygiad cymwysiadau symudol Aberystwyth Hygyrch;
- Cyfrannu tuag at gyfarpar llwyfan ramp newydd i'w ddefnyddio yn ystod Seremonïau Graddio.

Mae'r Grŵp Aberystwyth Hygyrch ar hyn o bryd yn rhoi ystyriaeth i gynigion prosiect ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, gan gynnwys mesurau i wella mynediad i Piazza Canolfan y Celfyddydau a fyddai yn ei dro yn gwella mynediad i Ganolfan y Celfyddydau, Undeb y Myfyrwyr ac adeiladau Hugh Owen.

Bydd y grŵp yn croesawu unrhyw awgrymiadau neu sylwadau perthnasol i'r prosiectau neu'r gweithgareddau a allai wella hygyrchedd gwasanaethau neu gyfleusterau'r Brifysgol. Gall staff, myfyrwyr neu aelodau'r cyhoedd anfon unrhyw sylwadau neu awgrymiadau at Rhodri Gravell yn rhg4@aber.ac.uk.

## Neges blwyddyn newydd gan y Canghellor



### Mae dechrau blwyddyn newydd yn gyfnod o newid ac nid yw 2017 yn eithriad yn hynny o beth.

Mae dechrau blwyddyn newydd yn gyfnod o newid ac nid yw 2017 yn eithriad yn hynny o beth.

Ymhen ychydig llai na deufis, ar ddydd Llun y 3ydd o Ebrill, bydd yr Athro Elizabeth Treasure yn cychwyn ar ei swydd fel ein His-Ganghellor newydd. Gwn fod ganddi gynlluniau cyffrous i sicrhau y bydd Prifysgol Aberystwyth yn mynd o nerth i nerth. Un o'i blaenoriaethau cyntaf fydd datblygu gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol ac arwain datblygiad ein Cynllun Strategol am y pum mlynedd nesaf. Mae gan bawb ran i'w chwarae yn y broses hon a bydd ymgynghori helaeth â chydweithwyr.

Mae'r Athro Treasure yn cydio yn yr awenau yn ystod yr hyn sy'n ddiamau yn amser heriol tu hwnt i bob un ohonom yn y sector Addysg Uwch. Daw goblygiadau Brexit yn fwy eglur wrth i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol [DG] roi cychwyn ar Erthygl 50 ac y bydd trafodaethau i adael yr Undeb Ewropeaidd yn dechrau o ddifrif. Calonogol oedd clywed Theresa May, Prif Weinidog y DG, yn dweud yn ei haraith Brexit bwysig ar 16eg Ionawr y byddai hi'n croesawu cytundeb a fyddai'n galluogi i brifysgolion barhau i gydweithio â phartneriaid Ewropeaidd ar fentrau gwyddoniaeth, ymchwil a thechnoleg pwysig. Mae symudedd staff a myfyrwyr rhwng y DG a'r cyfandir yn hanfodol, fel y mae'r cyllid sydd ar hyn o bryd yn ein cyrraedd o'r Undeb Ewropeaidd. Fel aelod o grŵp ymgynghorol Llywodraeth Cymru ar Ewrop, byddaf yn parhau i bwysleisio buddiannau addysg uwch a phwyso am drefniadau yn y dyfodol a fydd mor fanteisiol â phosibl i Gymru ac i'r DG.

Mae Adolygiad Diamond yn dynodi bod newid arall ar y gorwel i'r sector yng Nghymru. Mae'n debyg mai myfyrwyr o Gymru fydd yn cyrraedd ym Medi 2017 fydd y rhai olaf i dderbyn grant, £5,100 yn gyfredol tuag at ffioedd dysgu, gan Lywodraeth Cymru. Cyn y Nadolig, bûm yn siarad mewn seminar a drefnwyd gan WonkHE am y goblygiadau i'r sector. Tra byddai cynigion yr adroddiad yn cyflwyno elfen, sydd i'w chroesawu, o sefydlogrwydd ym maes cyllido myfyrwyr, roeddwn i'n dadlau y bydd yn rhaid i ni aros i weld beth fydd y buddiannau gwirioneddol i sefydliadau fel Aberystwyth a pha bryd y cawn eu gweld.

Drwy gydol y cyfnod hwn o newid a thrawsnewid, mae ein Is-Ganghellor Dros Dro, yr Athro John Grattan a'i dîm gweithredol yn parhau i gymryd camau i sicrhau y bydd Aberystwyth yn brifysgol lwyddiannus a chystadleuol yn y dyfodol. Bydd penderfyniadau anodd yn ein hwynebu wrth i ni addasu i'r tirwedd addysg uwch cyfnewidiol. Mae rhoi'r sefydliad ar sylfaen gynaliadwy yn hanfodol. Rydyn ni i gyd yn ddyledus i'r Athro Grattan am yr arweinyddiaeth a ddangosodd fel Is-Ganghellor Gweithredol ers Chwefror 2016 ac yn arbennig am ei waith rhagorol ar Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr (ACF).

2017 hefyd fydd fy mlwyddyn olaf yn Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor, felly wrth i bethau newid yn Aberystwyth, gadewch i ni fanteisio ar y cyfleoedd a sicrhau ein bod yn newid er gwell.

Rwy'n parhau'n hynod o falch o'n cyraeddiadau nodedig fel Prifysgol – yn llwyddo yn uwch na'r disgwyl yn rhyngwladol wrth ddal yn driw i'n gwreiddiau lleol – ac o ymroddiad a gwaith caled cydweithwyr.

**Syr Emyr Jones Parry**

Canghellor

# Gofodau ffydd

### Mae'r Brifysgol wedi agor dau Ofod Ffydd newydd i'r staff a'r myfyrwyr at ddibenion defosiwn neu fyfyrdod tawel.



Yng Nghanolfan y Celfyddydau y mae'r Gofod Ffydd ar Gampws Penglais, i'r dde o Gaffi'r Piazza. Mae drws ar ochr yr adeilad i fynd i mewn i'r Gofod Ffydd hwn o'r ardal ymgynnull agored y tu allan i Ganolfan y Celfyddydau/Undeb y Myfyrwyr.

Mae'r Gofod Ffydd ar gael drwy gydol yr wythnos (gan gynnwys dydd Sadwrn a dydd Sul) o 8am tan 9pm; defnyddiwch eich Cerdyn Aber i fynd yno. Caiff adegau penodol eu neilltuo ar gyfer mynediad agored i staff a myfyrwyr unigol at ddibenion defosiwn neu fyfyrio tawel.

Ar adegau eraill gall staff a myfyrwyr y Brifysgol a chymdeithasau ffydd Undeb y Myfyrwyr ei neilltuo ar gyfer gweithgareddau ffydd. Mae ffurflen archebu a chytundeb ar gael ar-lein: www.aber.ac.uk/cy/student-support/faith-provision/booking-faith-space/

Ceir Gofod Ffydd arall ar Gampws Llanbadarn, ar ben y grisiau yn Adeilad Blas Padarn. Mae Gofod Ffydd Campws Llanbadarn ar gael tra bydd Blas Padarn ar agor, ac yn ystod yr adegau hyn mae mynediad agored i staff a myfyrwyr y Brifysgol. Nid yw'n bosib archebu'r gofod ffydd yn Llanbadarn.

# Myfyrwyr yn creu Gosodiad Perfformio yn Berlin

## Teithiodd pump myfyriwr o'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu i Berlin ym mis Medi 2016 i gymryd rhan mewn prosiect celf cydweithredol cyffrous.

Cafodd prosiect *HALL04* ei greu a'i arwain gan grŵp cydweithredol TAAT ('Theatr fel Pensaernïaeth, Pensaernïaeth fel Theatr') o'r Iseldiroedd a Gwlad Belg, sy'n defnyddio'r syniad o bensaernïaeth fel theatr i ddod â phobl at ei gilydd.

Yn Berlin, bu'r pum myfyriwr Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu – Jenny Case, Kristina Eckern, River Fincher, Róisín Murphy a Dominika Rau – yn gweithio gyda phum myfyriwr pensaernïaeth o Brifysgol Celfyddydau a Gwyddorau Alanus yn Bonn.

Gan gydweithio â thîm o TAAT a nifer o arbenigwyr gwadd, roedd gan y myfyrwyr wythnos i gynllunio ac adeiladu gosodiad perfformiad yng Nghanolfan Bensaernïaeth yr Almaen (Deutsches Architektur Zentrum) ar gyfer agoriad cyhoeddus.

Gyda'r nod o greu adeilad sy'n ddrama theatr a drama theatr sy'n adeilad, roedd y prosiect yn cynnwys ailweithio fframwaith pren sylfaenol, i ganiatáu ad-drefnu ystafelloedd, coridorau a drysau llithro, gan ganolbwyntio'n benodol ar ymchwilio i wahanol ddimensiynau sain.

Roedd y gosodiad ar agor i'r cyhoedd am wythnos. Byddai ymwelwyr â'r arddangosfa yn cael eu paru â dieithryn a'u gwahodd i ddod i mewn i'r gosodiad o ochrau cyferbyn heb weld ei gilydd.

Ar ôl dod mewn, rhaid oedd glynu wrth dair prif reol: ni allent siarad, na gweld ei gilydd, a gofynnwyd iddynt gau pob drws y tu ôl iddynt.



Róisín Murphy, myfyrwraig Astudiaethau Drama a Theatr Aberystwyth (tu blaen y llun) gyda Gerriet Schwen, myfyriwr pensaernïaeth o Alanus.

Wrth symud drwy'r gosodiad, byddent yn dod ar draws y gwahanol ardaloedd a gafodd eu creu, ac yn gwrando ac ymateb i symudiadau'r unigolyn arall na allent ei weld.

Eglurodd y Dr Andrew Filmer, Uwch-ddarlithydd mewn Ddrama, Theatr a Pherfformio yn Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu: "Roedd y gosodiad yn gwahodd dau ddieithryn i fynd ar siwrnai gyda'i gilydd, gyda'r cerflunwaith pren yn gweithredu fel 'sgript' bensaernïol ac ymddygiad cyffredin yn troi yn berfformiad digymell.

"Byddai ymwelwyr â'r gosodiad yn ymateb mewn ffyrdd gwahanol iawn – byddai rhai yn chwareus, gan archwilio posibiliadau'r gosodiad; byddai eraill yn loetran ac yn cymryd eu hamser; ond roedd y profiad i rai yn anodd ac yn glawstroffobig."

Dywedodd Jenny Case, myfyrwraig theatr a senograffeg, fod cymryd rhan yn *HALL04* wedi bod yn brofiad defnyddiol ac ymarferol: "Mater o bryder cyffredin i theatr a phensaernïaeth yw mynegiant creadigol o ofod cymdeithasol. Dysgais sut oedd modd creu gofod cymdeithasol amgen trwy gyfuno theatr a phensaernïaeth a sut y gallwn weithio gydag eraill i greu a diffinio'r gofod hwnnw."

# Bom Edafedd yn bywiogi Campws Penglais



Siriolodd yr arddangosfa liwgar y tu allan i Lyfrgell Hugh Owen y Nadolig gyda chyfuniad o edafedd, goleuadau a chlychau.

Daeth 'bom edafedd' a grëwyd ac a osodwyd gan Grym Gwau, â sirioldeb yr Ŵyl i'r ardal y tu allan i Lyfrgell Hugh Owen ychydig cyn y Nadolig.

Mae 'Bomio Edafedd' neu '*Guerrilla Knitting*' yn ffurf o gelfyddyd stryd dros dro a ddaeth i'r amlwg ar ddechrau'r 2000au fel modd o wella gofodau cyhoeddus.

Grŵp yw Grym Gwau a grëwyd i annog rhyngweithio cymunedol drwy wau a phrosiectau edafedd celfyddyd eraill.

Crëwyd y grŵp gan Dîm Bywyd Preswyl y Brifysgol sydd newydd ei ehangu a'i ail-frandio.

Bellach yn rhan o'r Tîm Llety yng Ngwasanaethau'r Campws, mae'r Tîm Bywyd Preswyl yn cynnwys deugain o aelodau yn fyfyrwyr a staff sy'n darparu amrywiaeth o gyfleoedd cymdeithasol, adloniadol ac addysgol ar gyfer myfyrwyr preswyl, ac yn gweithredu fel gwasanaeth i gyfeirio myfyrwyr at gymorth a chyngor.

Mae Grym Gwau yn cyfarfod yn wythnosol i ddysgu amrywiaeth o dechnegau creu celfyddyd gydag edafedd ac nid oes angen unrhyw sgiliau blaenorol. Mae'r grŵp sy'n agored i holl gymuned Prifysgol Aberystwyth yn fyfyrwyr, staff a chynfyfyrwyr yn rhoi i bobl y cyfle i ddysgu, mentora a datblygu eu dealltwriaeth o'r hyn y gellir ei gyflawni drwy'r cyfrwng hwn.

Cadwch lygad ar agor am ragor o ddigwyddiadau sydd wedi eu cynllunio ar gyfer 2017. Am ragor o wybodaeth neu i gynnig awgrymiadau ewch i www.facebook.com/GrymGwauKnitForce/ neu anfonwch e-bost i ni: ggknitf@gmail.com. Mae croeso i bawb.

@BywydAberLife #GrymGwauKnitForce

# Y Brifysgol yn coffáu myfyriwr a syrthiodd

## Ychwanegwyd enw pêl-droediwr chwedlonol o Gymru at y rhestr gwroniaid i anrhydeddu myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Daeth Leigh Richmond Roose i astudio'r celfyddydau a'r gwyddorau yn y Brifysgol ym 1895 a dechreuodd chwarae yn y gôl i dîm Tref Aberystwyth. Yn 1900 cynorthwyodd Dref Aberystwyth i ennill Cwpan Cymru – yr unig dro erioed i'r clwb ennill y Gwpan.

Yn ystod ei flwyddyn gyntaf yn fyfyriwr, cafodd ei ddewis i chwarae i dîm Cymru ac yn ôl y sôn fe fyddai'n mynnu gwisgo hen grys Tref Aberystwyth o dan ei grys cenedlaethol.

Aeth Roose yn ei flaen a datblygu'n un o gôl-geidwaid gorau ei gyfnod, a chwarae i nifer o dimau blaenllaw gan gynnwys Arsenal, Aston Villa a Sunderland.

Roedd ganddo fywyd lliwgar oddi ar y cae hefyd ac ym 1905 fe'i disgrifiwyd gan y *Daily Mail* fel un o'r dynion di-briod mwyaf priodadwy ym Mhrydain.

Ar ôl cwblhau ei astudiaethau yn Aberystwyth, aeth Roose ymlaen i astudio meddygaeth yn Llundain.

Pan ddechreuodd y Rhyfel Byd Cyntaf ym 1914 ymunodd â Llu Meddygol y Fyddin Frenhinol, er na chwblhaodd ei radd feddygol oherwydd ei yrfa lwyddiannus yn bêl-droediwr.

Yn ddiweddarach trosglwyddodd i'r Ffiwsilwyr Brenhinol a gwasanaethodd yn y ffosydd, gan ennill y Fedal Filwrol am



ei ddewrder wrth atal ymosodiad fflam-daflwyr trwy daflu grenadau at y gelyn, er ei fod wedi ei anafu.

Ar 7 Hydref 1916, yn 38 oed, lladdwyd Roose wrth ymladd yn y Somme.

Ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, aeth Cymdeithas y Cyn-Fyfyrwyr ati i brynu 10 Maes Lowri a chyflwyno'r adeilad i'r Brifysgol er cof am aelodau staff, myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr a gollodd eu bywydau yn y brwydro.

Y Gymdeithas hefyd a ddarparodd y rhestr goffa wreiddiol, nad yw'n cynnwys enw Roose. Mae'n bosibl na chafodd ei enw ei gynnwys oherwydd ei fod wedi ei gamsillafu ar ei bapurau recriwtio ac yn sgil hynny ar y gofeb i'r rhai a gollwyd yn y Somme yn Thiepval.

Ganrif yn ddiweddarach, daeth aelodau Cyndeithas y Cyn-fyfyrwyr ynghyd ar 16 Rhagfyr 2016 i anrhydeddu'r cof am Roose, wrth ddadorchuddio cofeb coffa iddo yn yr Hen Goleg.

# Gwobrwyo cyn-fyfyrwraig celf mewn cystadleuaeth flaenllaw

Mae'r artist a'r gwneuthurwraig print Gini Wade, a gwblhaodd MA mewn Celfyddyd Gain yn Ysgol Gelf Aberystwyth, wedi ennill Gwobr Ranbarthol Cymru yng nghystadleuaeth Celf Agored y DG 2016 gyda lithograff dan yn dwyn y teitl *Home 2 – Regeneration*.

Roedd Gini yn fyfyrwraig ôl-raddedig yn Ysgol Gelf Prifysgol Aberystwyth rhwng 2007 a 2010. Bu'n arbenigo mewn lithograffeg dan arweiniad Paul Croft ac fe enillodd MA mewn Celfyddyd Gain gyda chlod uchel.

Wrth esbonio'r cefndir i'w darn celf buddugol, dywedodd Gini: "Cefais y syniad ar gyfer *Home 2 - Regeneration* wrth groesi parc Mile End yn Nwyrain Llundain - ardal a gafodd ei bomio'n llwyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac a fu'n rhan o brosiect adfywio yn dilyn y rhyfel. Amhosib fyddai dweud heddiw bod unrhyw beth wedi digwydd yno - mae'n olygfa heddychlon gyda phlant yn chwarae a mamau'n gwthio pramiau. Mae'n anhygoel pa mor gyflym caiff trawma ei hanghofio ar ôl cenhedlaeth neu ddwy, er bod y sgil-effeithiau yno o hyd."

Fel enillydd Gwobr Ranbarthol Cymru, fe dderbyniodd Gini wobr o £1,000 ynghyd â phenwythnos o wyliau yng ngwesty Twr y Felin yn Nhyddewi oedd yn noddi'r wobr.



O'i chartref yng Nghanolbarth Cymru, bu Gini yn gweithio fel darlunydd ac awdur llyfrau plant ers blynyddoedd lawer. Mae bellach yn gwneud ei phrintiau ei hun ac yn cynnal gweithdai lithograffeg. Hi yw cyfarwyddwr Gwneuthurwyr Print Aberystwyth ac mae'n cyfrannu erthyglau at gyfnodolyn *Printmaking Today*.

Mae ei phrintiau yn cael eu cadw mewn casgliadau preifat a chyhoeddus ar hyd a lled y byd.



Rachel Atherton yn agor y gampfa newydd yng nghwmni Darren Hathaway, Rheolwr y Ganolfan Chwaraeon (chwith), a'r Athro John Grattan, Is-Ganghellor Dros Dro'r Brifysgol (dde).

# Pencampwraig beicio mynydd y byd yn agor campfa newydd

## Agorodd Rachel Atherton gampfa newydd y Brifysgol ar 10 Ionawr.

Mae'r adnodd newydd yn fuddsoddiad o £250,000 ac yn cynnig y cyfarpar cardio diweddaraf ac offer cryfhau a chyflyru wedi ei ddarparu gan Matrix Fitness.

Drwy gyfrwng y dechnoleg rithwir ryngweithiol ddiweddaraf, bydd defnyddwyr Canolfan Chwaraeon Prifysgol Aberystwyth yn gallu mynd i redeg yn y Sahara, beicio yn yr Alpau neu ddringo adeilad talaf yn y byd yn Dubai.

Wrth siarad yn yr agoriad swyddogol, dywedodd Rachel Atherton ei bod wrth ei bodd gyda'r offer newydd a'i bod yn bwriadu defnyddio ei haelodaeth Platinwm o Ganolfan Chwaraeon Prifysgol Aberystwyth i'r eithaf.  Mae Aelodaeth Platinwm yn cynnig defnydd diderfyn o'r holl wasanaethau a'r cyfleusterau a gynigir yn y Ganolfan Chwaraeon.

Mae Rachel sy'n byw yn Nyffryn Dyfi, wedi ennill mwy o wobrau nag unrhyw feiciwr mynydd arall o Brydain yn hanes y gamp.

Yn ogystal â naw teitl Cenedlaethol y DG mae wedi ennill Pencampwriaeth Lawr Mynydd bum gwaith, pencampwriaeth Cwpan y Byd bum gwaith, pencampwriaeth Ewrop dwywaith ac mae'n berchennog balch 33 Cwpan y Byd.

Ar hyn o bryd mae'n mwynhau seibiant yn dilyn rhediad a'i gwelodd yn ennill 13 ras Cwpan Byd yn olynol.

Mae'r cyfleusterau newydd ym Mhrifysgol Aberystwyth yn cynnig y diweddaraf mewn technoleg campfa a hyfforddiant.

Bydd rhedwyr a beicwyr yn gallu dilyn llwybrau ym mha bynnag le y maent yn dymuno yn y byd gan ddefnyddio technoleg rithwir.

I'r rheiny sy'n awyddus i osod her i'w hunain, mae yna raglenni sy'n eu caniatáu i ddringo rhai o adeiladau amlyca'r byd, gan gynnwys Tŵr Eiffel a'r adeilad talaf yn y byd, y Burj Khalifa yn Dubai.

Gall defnyddwyr hefyd ddefnyddio'r ap hyfforddiant personol SbortAber ynghyd ag apiau eraill fel Strava, Map My Fitness a Fitbit.

Byddant hefyd yn gallu gwrando ar restrau cerddoriaeth bersonol sydd ar eu ffonau symudol er mwyn cael y gorau o bob sesiwn.

"Mae'r cyfleusterau newydd yma yn cynnig rhywbeth i bawb, o ddechreuwyr i athletwyr elitaidd, selogion cadw'n heini proffiadol a'r rhai sydd angen ymarfer corff am resymau iechyd," meddai Darren Hathaway, Rheolwr Cyffredinol Canolfan Chwaraeon y Brifysgol.

"Mae'r buddsoddiad hwn wedi ein galluogi i roi sylw arbennig i sut mae'r offer wedi ei osod, gan sicrhau bod pob agwedd ar y profiad o ddefnyddio'r gampfa yn fwy cyfeillgar a chroesawgar, a bod y dechnoleg wedi ei chynllunio i sicrhau bod ymarfer corff yn fwy pleserus yn sgil cysylltu, symbylu a herio defnyddwyr," ychwanegodd Darren.



Mae Canolfan Chwaraeon y Brifysgol yn trefnu dros 60 o ddosbarthiadau cadw'n heini bob wythnos, o Pilates gofal cefn a ioga i hyfforddiant cylched, Zumba a Hyfforddiant Dwysedd Uchel HIIT sy'n boblogaidd iawn ar hyn o bryd.

Mae staff y Ganolfan Chwaraeon hefyd yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ddarparu sesiynau arbennig ar gyfer cleifion sydd â phroblemau'r galon.




01970 622280
sports@aber.ac.uk
www.aber.ac.uk/en/sportscentre/about-us/



# Datblygu arweinwyr ymchwil y dyfodol yng Nghymru

## Caiff deg ar hugain o ymchwilwyr eithriadol o bob cwr o Gymru eu dewis i gymryd rhan mewn rhaglen datblygu personol, proffesiynol ac arweinyddiaeth drwy raglen Crwsibl Cymru, sydd wedi ennill gwobrau ac sydd ar hyn o bryd yn derbyn ceisiadau ar gyfer 2017.

Rhaglen i ymchwilwyr dawnus sydd ar ddechrau neu ar ganol eu gyrfa yw Crwsibl Cymru, ymchwilwyr a chanddynt rhwng tair a naw mlynedd o brofiad ymchwil ôl-ddoethurol (neu brofiad cyfatebol), yn unrhyw ddisgyblaeth. Rhaid i'r ymchwilwyr fod yn gweithio yng Nghymru, naill ai mewn sefydliad addysg uwch, neu ym maes ymchwil a datblygu ym myd busnes, diwydiant neu'r sector cyhoeddus neu elusennol.

Enillodd Crwsibl Cymru wobr y *Times Higher Education* am Gyfraniad Eithriadol i Ddatblygu Arweinyddiaeth yn 2013, a'i nod yw helpu'r ymchwilwyr sy'n cymryd rhan yn y rhaglen i ddysgu:

- sut mae ymchwilwyr eraill mewn disgyblaethau eraill sydd ar ddechrau neu ar ganol eu gyrfa yn ymdrin â'r un materion â nhw;
- sut mae trosglwyddo eu gwybodaeth i lygad y cyhoedd er mwyn cael effaith;
- y sgiliau a'r agweddau sy'n debygol o wneud eu hymchwil yn fwy arloesol;
- sut y gall meddwl yn greadigol wneud gwahaniaeth i'w gwaith a'u gyrfa.

Ariennir Crwsibl Cymru gan gonsortiwm o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ac mae'n dod ag ymchwilwyr at ei gilydd i weld sut y gallant gydweithio i ymdrin â'r heriau ymchwil sy'n wynebu Cymru ar hyn o bryd.

Cymerodd Dr Berit Bliesemann de Guevara o'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol ran yng Nghrwsibl Cymru yn 2015, ac aeth ymlaen i weithio'n llwyddiannus ar dri o brosiectau cydweithredol Crwsibl Cymru o ganlyniad uniongyrchol i gwblhau'r rhaglen.

Dywedodd Berit: "Cefais gyfle drwy Grwsibl Cymru i ddod i adnabod pobl o brifysgolion eraill yng Nghymru ac mewn disgyblaethau eraill na fyddwn wedi cwrdd â nhw fel arall, ac mae hynny wedi esgor ar brosiectau cydweithredol rhyngddisgyblaethol newydd gwych.

"Hefyd, roeddwn yn mwynhau'n fawr cael ddysgu am fy ffordd i fy hun ac am ffordd pobl eraill o weithio, a dod i ddeall pam rydym yn cydweithio'n dda â rhai pobl ond nid ag eraill. Roedd hynny'n agoriad llygad go iawn."

Mae'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i Grwsibl Cymru 2017 am 12 hanner nos ar 7 Mawrth 2017. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Dr Dafydd Roberts, Swyddog Datblygu Ymchwil (y Celfyddydau a'r Dyniaethau) yn yr adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi, estyniad 8787, e-bost: dir@aber.ac.uk.

# ADGD Ffit ac Iach

m mis Hydref 2016 bu Tîm ADGD, dan ysbrydoliaeth y 'capten' Helen Stockley Jones, yn cystadlu yn Hanner Marathon Caerdydd er mwyn codi arian ar gyfer Cronfa Canmlwyddiant yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear (ADGD).

Ymunwyd â Helen, sy'n Swyddog Gweithrediadau Academaidd yn ADGD, ac yn hyfforddwraig ffitrwydd rhan amser yn SportAber, gan gymysgedd eclectig o staff sef Jean Jones, Sarah Jones, Tom Holt, Neil Glasser, Hywel Griffiths, Andrew Thomas, a Mark Whitehead, a gyflawnodd gyda'i gilydd y llwybr 13.1 milltir cyflym a gwastad o amgylch Canol Dinas Caerdydd.

"Her bersonol oedd hyn ar y cychwyn, ond holais fy nghydweithwyr a'm ffrindiau i weld a oedd ar rywun awydd ymuno â mi, a chefais gefnogaeth ryfeddol oddi wrth y criw o'r diwrnod cyntaf," eglurodd Helen.

Dim ond un o'r llu o weithgareddau y bu llawer o'r staff a myfyrwyr ôl-raddedig yn ADGD yn ymgymryd â hwy er mwyn bod yn iachach a mwy ffit yn 2016 oedd y sialens hon.



Mae Helen yn rhedeg dosbarth sbinio wythnosol, a hefyd gemau osgoi'r bêl a rygbi bach ar gyfer ei chydweithwyr.

Mae amryw o'r staff a'r myfyrwyr ôl-raddedig hefyd wedi ymuno â "2016km yn 2016", gyda'r bwriad o seiclo, rhedeg, cerdded, nofio, hopian neu neidio 2016 cilomedr yn ystod 2016.

"Rydyn ni wedi cefnogi'r naill y llall drwy gydol y flwyddyn ac mae hi wedi bod yn anhygoel gweld cymaint o bobl yn ymgymryd â nifer o weithgareddau a sialensau nad ydynt o bosibl wedi ymwneud â hwy o'r blaen," ychwanegodd Helen. "Mae codi dros £650 a fydd yn mynd tuag at fwrsari newydd i fyfyrwyr yn wobr wirioneddol ynddi ei hun ac mae'n gwneud yr holl waith caled, y gwaed, y chwys a'r dagrau yn werth yr ymdrech!"

Mae'r tîm yn bwriadu dal ati eleni eto.

Kerry Lewis





# Yn ogystal â'r swydd bob dydd

Darlithydd yn Ysgol y Gyfraith Aberystwyth yw Kerry Lewis sydd a'i diddordebau ymchwil yn canolbwyntio ar amddiffyniad amgylcheddol a morol.

Yn ei hamser hamdden mae hi'n blymwraig frwdfrydig, ac yn treulio llawer o'r haf o dan y môr ger arfordir Sir Benfro. Mae hi hefyd yn aelod o Blymwyr Cantre'r Gwaelod, Aberystwyth, cangen o Glwb Sgwba-blymio Prydain.

Bu Newyddion Aberystwyth yn holi Kerry am y ffordd y dechreuodd hi sgwba-blymio ac am ddod yn agos at beth o'r bywyd gwyllt rhyfeddol sydd yn y môr oddi amgylch y Deyrnas Gyfunol.

**Pryd y dechreuoch chi blymio?**

Dechreuais ddysgu plymio yn Awstralia tuag ugain mlynedd yn ôl. Ar ôl hynny bûm yn plymio'n aml pan oeddwn ar fy ngwyliau, ond dim ond tua deng mlynedd yn ôl y dechreuais i blymio yn nyfroedd y Deyrnas Gyfunol. Cysylltais a'r tîm morol ym Mharth Cadwraeth Forol Sgomer (yr unig Barth Cadwraeth Forol yng Nghymru erbyn hyn) a gofyn a allwn i wirfoddoli gyda hwy. Anogwyd fi i barhau gyda fy hyfforddiant a chymhwysais fel Divemaster Cymdeithas Broffesiynol Hyfforddwyr Plymio (PADI) cyn ymuno â BSAC (Clwb Tanddwr Prydain) ar lefel Arweinydd Plymio.

**Beth rydych chi'n ei fwynhau ynglŷn â phlymio?**

Cymaint o bethau! Rwy'n hoffi'r heddwch a'r lloches o fod o dan y dŵr – yn rhyfedd ddigon byddaf yn teimlo'n gartrefol a thawel yn gwrando ar fy hun yn anadlu mewn man na fwriadodd esblygiad i mi fynd iddo. Ond ar wahân i'r profiad corfforol ei hun, mae i gyd yn ymwneud â'r bywyd a'r cynefin y byddaf yn eu gweld. Gan fy mod yn plymio'n gyson yn yr un lleoliadau, rwy'n dysgu mwy a mwy am yr anifeiliaid rwy'n eu gweld, boed pethau yn nodedig neu'n anghyffredin neu'n newid... Mae'r rhan fwyaf o'r plymio rwy'n ei wneud yn awr yn cael ei drefnu drwy'r rhaglen Seasearch Cadwraeth Forol sy'n annog plymwyr amatur i ddatblygu eu hadnabyddiaeth o fywyd morol a'u sgiliau cofnodi er mwyn darparu data ystyrlon y gellir ei ddefnyddio gan asiantaethau statudol ac NGOs i ddatblygu mesurau polisi i warchod ein hamgylchedd morol.

**Cawsoch gydnabyddiaeth genedlaethol yn ddiweddar gyda ffotograff yn nghystadleuaeth ffotograff plymio Great British Diving. Soniwch am y modd y cawsoch y llun.**

Roessen n'in chwilota mewn dŵr bas yn agos i Ynysoedd Sili gyda Seasearch ger arfordir Cernyw.

Daeth tua chwe morlo yn agos atom a dechrau ymddwyn yn chwareus. Roedd dau neu dri ohonynt yn arbennig o chwilfrydig ac felly dyma adael iddynt ddod yn agos atom. Tynnais gryn dipyn o ffotograffau yn ogystal â fideo o ddau o'r morloi yn chwarae gyda'i gilydd. Roeddynt yn hynod o giwt ac yn rhyfeddol i'w gweld mor agos. (https://www.youtube.com/watch?v=30cTbTnHKX4)

Mae gen i lawer iawn o ffotograffau erbyn hyn, ond yn anaml iawn mae pobl yn cael cyfle i'w gweld. Penderfynais y byddai cystadleuaeth y BSAC Great British Diving yn gyfle da i arddangos ambell i ffotograff roeddwn i wedi ei dynnu'n ddiweddar. Dewisais gyflwyno'r llun arbennig o'r morlo i'r gystadleuaeth am ei fod yn edrych mor ddoniol gyda'r chwyn ar ei ben, rhywbeth ychydig yn od.

**Ble yw eich hoff le i blymio?**

Rydw i wrth fy modd yn plymio yn Sir Benfro – dyna lle magwyd fi ac yn ystod y deg mlynedd diwethaf rwyf wedi darganfod byd cwbl newydd y gwyddwn i cyn lleied amdano pan oeddwn i'n blentyn. Mae plymio mewn dyfroedd cynhesach yn hyfryd iawn, ond unwaith y byddwch chi wedi arfer plymio yn eich bro eich hun yn rheolaidd rydych chi'n gallu dysgu a gweld cymaint, ac mae rhywbeth newydd i'w weld bob amser. Eleni rydw i wedi plymio hefyd ger dau begwn y Deyrnas Gyfunol – St Kilda ger arfordir gorllewin yr Alban a ger Ynysoedd Sili yn ne orllewin eithaf Lloegr.

**Soniwch am eich hoff brofiad plymio.**

Mawredd! Prin bod yna unrhyw blymiad sydd wedi bod yn gwbl amhleserus! Yr haf diwethaf bûm yn plymio ger goleudy *The Smalls* am y tro cyntaf – craig anghyfannedd get arfordir Sir Benfro, sy'n enwog am hanes erchyll a ail-adroddwyd y llynedd yn y ffilm *The Lighthouse*.

Pan oeddwn yn plymio sylwais ar bysgodyn digrif ei olwg nad oedd yn union yr un fath â'r Tompot Blenny holl bresennol a ffotogenic. Llwyddais i dynnu llun ohono ac fe gadarnhawyd yn ddiweddarach mai Red Blenny oedd y pysgodyn ac mai dyma'r tro cyntaf i'r rhywogaeth gael ei chofnodi yn nyfroedd Cymru.



Isod: Ffotograff Kerry o forlo busneslyd gyda chwyn ar ei drwyn a dderbyniodd ganmoliaeth yng nghystadleuaeth ffotograffau *Great British Diving* y BSAC.

**Beth ddywedech chi wrth rywun sydd â diddordeb mewn dechrau plymio?**

Cysylltwch â'ch clwb lleol! Mae dau glwb yn Aberystwyth – Plymwyr Cantre'r Gwaelod yw BSAC y dref, ac mae hefyd Glwb y Brifysgol. Ni fyddwch yn cael eich taflu i mewn i'r dŵr dyfnaf! Er enghraifft mae 'Try Dive' wedi ei fwriadu ar gyfer newydd-ddyfodiaid ac yn gadael i bobl brofi hwyl sgwba-blymio drostynt eu hunain. Cewch y cyfle i ddod yno i gael hyfforddiant priodol, ac yna i roi tro ar blymio drosoch eich hun yn niogelwch pwll nofio gan ddefnyddio offer y clwb ac o dan arolygiaeth briodol.

**Cysylltau ar gyfer gwybodaeth bellach:**

Plymwyr Cantre'r Gwaelod: www.aberystwythsubaquaclub.org.uk/

Clwb Tanddwr Prifysgol Aberystwyth: www.facebook.com/AberystwythSubAqua/

Cymdeithas Cadwraeth Forol:www.mcsuk.org/

Seasearch: www.seasearch.org.uk/



Uchod: Kerry yng Ngoleudy The Smalls, 20 milltir i'r gorllewin o Benrhyn Marloes yn Sir Benfro





# Pam mae rhai milwyr yn datblygu anhwylder straen wedi trawma, ac eraill ddim?

Yn yr erthygl nodwedd hon, mae Dr Olaoluwa Olusanya o Ysgol y Gyfraith Aberystwyth yn trafod y ffactorau sy'n cyfrannu at anhwylder straen wedi trawma mewn cyn-filwyr, a'r risg gysylltiedig o ddod ar draws y system cyfiawnder troseddol wrth ddychwelyd o ryfel.



Dr Olaoluwa Olusanya

Mae'r baich seicolegol, emosiynol a chorfforol a roddwyd ar Luoedd Arfog y DG oherwydd y gwrthdaro yn Irac ac Afghanistan wedi cyfeirio sylw'r cyfryngau, ac felly'r cyhoedd, at anhwylder straen wedi trawma (PTSD).

Mae PTSD yn cael effaith sylweddol ar fywydau milwyr, eu teuluoedd, eu ffrindiau a'r gymuned. Gall achosi ôl-fflachiadau, hunllefau, dicter ac iselder, gan arwain yn aml at drais, camddefnyddio alcohol a sylweddau, chwalu teuluoedd, carchar a hyd yn oed hunanladdiad.

Ceir cefnogaeth empiraidd gref i awgrymu cysylltiad rhwng symptomau PTSD mewn cyn-filwyr ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ôl gadael y fyddin, cymryd risg yn amlach, ymddygiad ymosodol a throseddu.

O blith carcharorion y DU, mae euogfarnau ar gyfer 'trais yn erbyn yr unigolyn' yn cyfrif am 28.6% o droseddwyr na fu yn y fyddin ond am 32.9% o droseddwyr sy'n gyn-filwyr a allai, fe awgrymwyd, ddeillio o broblemau PTSD.

Fodd bynnag, mae'r amrywiaeth mawr yn nifer yr achosion o PTSD sy'n gysylltiedig ag ymladd a phroblemau iechyd meddwl eraill yn cynnig her fawr i ymchwilwyr a llunwyr polisi.

Mae'r anghysonder wedi sbarduno trafodaeth ynghylch pwysigrwydd cymharol newidynnau gwahanol – cyn gwasanaethu (e.e. cydlyniant y teulu, trawma yn ystod plentyndod a'r oed wrth ymrestru), ymladd (e.e. cydlyniant yr uned, dod i gysylltiad ag ymladd ac arfarnu profiad milwrol), ac ar ôl gwasanaethu (e.e. digwyddiadau eraill bywyd sy'n achosi straen, cymorth cymdeithasol a'r profiad o ddod adref).

Daeth dau safbwynt gwahanol i'r amlwg. Yn ôl rhai ymchwilwyr, po uchaf fo lefel a difrifoldeb y cysylltiad ag ymladd, po fwyaf yw'r siawns o ddatblygu symptomau PTSD ar ôl hynny – gelwir hyn yn 'berthynas ddos-ymateb'. I'r gwrthwyneb, bu eraill yn cwestiynau a yw'r amrywiadau yn nifer yr achosion o PTSD ar ôl ymladd yn gallu cael eu hegluro'n ddigonol trwy wahaniaethau yn y cysylltiad ag ymladd yn unig.

Rwy'n cynnig 'model straen cronnol' sy'n awgrymu, er mwyn deall yn llwyr wahaniaethau unigolion a allai ddioddef o PTSD a'r risg gysylltiedig o ddod ar draws y system cyfiawnder troseddol ar ôl cael eu rhyddhau, dylai ffactorau seicogymdeithasol (e.e. digartrefedd, diweithdra a thlodi wrth ddychwelyd o ryfel)  gael ei hystyried ynghyd â ffactorau dod i gysylltiad ag ymladd.

Mae milwyr sy'n dychwelyd yn wynebu nifer o heriau sylweddol sy'n gysylltiedig â diosg eu hunaniaeth filwrol a chofleidio hunaniaeth sifil newydd – teimlant fod pobl yn eu camddeall, a'u bod wedi'u datgysylltu o bryderon a phroblemau bywyd sifil; gallant deimlo'n ddiwerth yn ogystal.

Mae tystiolaeth empiraidd yn awgrymu bod unigolion a ddaeth i gysylltiad â'r un math o ddigwyddiad trawmatig yn flaenorol yn gallu gwrthsefyll effeithiau seicolegol digwyddiadau o'r fath yn well, tra bydd effaith gronnol dod i gysylltiad â digwyddiadau trawmatig gwahanol yn arwain at fwy o symptomau straen wedi trawma.

Rwy'n dadlau, felly, y bydd ffactorau wedi'r rhyfel megis profiadau negyddol wrth gyrraedd adref a digwyddiadau eraill sy'n rhoi straen ar fywyd yn cael effaith gronnol ac yn cynyddu'r risg o gyn-filwyr yn datblygu a dioddef PTSD yn barhaus.

Ar hyn o bryd, fe ymddengys fod llunwyr polisi ac ymarferwyr yn y system cyfiawnder troseddol yn cael eu harwain gan y dybiaeth mai cysylltiad ag ymladd yn unig sy'n egluro'r gwahaniaethau unigol yn y rhagdueddiad i PTSD ar ôl ymladd a'r risg gysylltiedig o ddod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol ar ôl cael eu rhyddhau.

O'r herwydd, mae polisïau cyfiawnder troseddol a rhaglenni adsefydlu ar gyfer troseddwyr sy'n gyn-filwyr yn canolbwyntio, bron yn ddiwahân, ar yr unigolyn.

Ond, er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i'r cyfryw bolisïau a rhaglenni ystyried a mynd i'r afael â chymhlethdodau'r amgylchiadau cymdeithasol sy'n cymhlethu ac yn ymestyn problemau PTSD ar ôl dychwelyd o ryfel.

Mae'r prosiect Cyswllt Cyfreithiol Cyn-Filwyr (www.veteranslegallink.org/), a sefydlwyd gennyf yn 2015, yn gwneud ymdrech i roi gwedd ymarferol ar brif ragdybiaethau'r 'model straen cronnol'. Nod y prosiect yn bennaf yw lleihau'r risg o PTSD ar ôl rhyddhau milwyr a'r tebygolrwydd y bydd problemau cymdeithasol mwy difrifol yn digwydd, trwy gynnig cymorth cymdeithasol personol i gyn-filwyr ar ffurf cyngor cyfreithiol a chymorth am ddim gan gyfreithwyr a myfyrwyr ar faterion lles cymdeithasol.




# Croeso i'r UMAber newydd!

## Mae 6 mis wedi mynd heibio ers i ni ddarparu ein darllenwyr â'r diweddaraf ynglŷn â gweithgareddau Undeb y Myfyrwyr yma yn Aberystwyth, ac mae'n deg dweud ein bod yn trawsnewid UMAber i fod yn fudiad newydd a chyffrous.

Ers dechrau'r flwyddyn academaidd hon, mae UMAber a Phrifysgol Aberystwyth wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn darparu gwasanaethau masnachol ar gyfer myfyrwyr o fewn ein hadeilad. Mae hyn wedi golygu bod UMAber wedi gallu canolbwyntio ar y pethau sylfaenol sy'n hanfodol i Undeb Myfyrwyr - darparu ar gyfer a chynnig cefnogaeth i'n haelodaeth; ein myfyrwyr.

Rydym nawr yn elusen sy'n canolbwyntio'n llwyr ar yr aelodaeth, ac mae ein holl amser staff a'n gweithgareddau â ffocws ar dri phrif faes: cyfleoedd, cefnogaeth a chynrychiolaeth. Rydym yn teimlo'n eithriadol o gyffrous i gael croesawu sawl aelod staff newydd i UMAber, sy'n gweithio gyda thîm y swyddogion ar gyfer 2016/17. Maent yn gaffaeliad i'r tîm, ac yn rhannu ein gweledigaeth newydd ar gyfer UMAber.

Cyn gwyliau'r Nadolig, gwelwyd rhai buddugoliaethau ymgyrchu anhygoel yn UMAber, gan gynnwys cyflwyno toiledau Rhywedd Niwtral yn ein hadeilad, ynghyd ag ymchwil i gymorth iechyd ac iechyd meddwl i fyfyrwyr. Cynhaliwyd mis Codi Arian a Rhoddi llwyddiannus arall, a lansio ymgyrch #SanauStefan er cof am y myfyriwr Stefan Osgood, sy'n rhoi gwybod i fyfyrwyr ei bod yn iawn siarad am iechyd meddwl.

Cynhaliwyd ein hystafell "Ymla-ci-o" gyntaf yn ystod cyfnod arholiadau Ionawr, lle bu cŵn a achubwyd yn ymweld â ni er mwyn galluogi myfyrwyr i gael seibiant o bwysedd arholiadau, yn ogystal â fforwm myfyrwyr ar y cyd â Bwrdd Iechyd Hywel Dda, er mwyn caniatáu i leisiau myfyrwyr ar wasanaethau iechyd lleol gael eu clywed.

Rydym hefyd ar drothwy ein cyfnod etholiadau nesaf; yn Chwefror a Mawrth, byddwn yn ethol ein tîm nesaf o Swyddogion Llawn-amser a Rhan-amser. Mae'r rolau hyn yn cael eu hadolygu rywfaint, er mwyn eu gwneud yn fwy perthnasol i'r strategaeth newydd rydym wrthi'n ei datblygu.

Mae hwn yn gyfnod gwirioneddol gyffrous i fod yn rhan o UMAber a'r cyfeiriad mae'r Undeb yn mynd yn y dyfodol. Edrychwn ymlaen at lawer mwy o ddatblygiadau cyffrous, ac at fod yr Undeb Myfyrwyr gorau y gallwn fod i'n haelodaeth.

**Lauren Marks**
Llywydd UMAber

www.umaber.co.uk

# Chwyddwydr ar .....<br>y Tîm Cyswllt Ysgolion & Cholegau

Mae Tîm Cyswllt Ysgolion a Cholegau'r Brifysgol yn gweithio gydag ysgolion, colegau ac ymgynghorwyr gyrfaoedd ar hyd a lled y Deyrnas Gyfunol, i godi ymwybyddiaeth o addysg uwch a Phrifysgol Aberystwyth, ac i helpu pobl i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. I ddysgu mwy am waith y tîm, bu *Newyddion Aber* yn sgwrsio â rheolwr y tîm, David Moyle.

**Beth yw prif swyddogaeth y Tîm Cyswllt Ysgolion a Cholegau?**

Mae'r tîm yn cefnogi ysgolion a cholegau drwy ystod o weithgareddau allgymorth i roi gwybodaeth i fyfyrwyr sydd, o bosibl, yn ystyried symud ymlaen i addysg uwch i addysg uwch, ac i ennyn eu diddordeb. Trwy ein gwaith, cawn gyfarfod myfyrwyr, athrawon, ymgynghorwyr gyrfaoedd a rhieni.

**Pwy sydd yn y tîm?**

Yn ogystal â fi, mae tri Swyddog Cyswllt Ysgolion a Cholegau wedi'u lleoli yn Aberystwyth sy'n teithio ar hyd a lled y wlad - Dafydd Morse, Cathy Piquemal, a Dewi Phillips.  Teleri Lewis yw Swyddog Prosiect Cyswllt Ysgolion a Cholegau.

Hefyd, mae Harriet Greatrex yn Swyddog Cyswllt Ysgolion a Cholegau De Orllewin Lloegr.

**Beth yw natur y gwaith?**

Mae aelodau'r tîm yn teithio ar hyd a lled y Deyrnas Gyfunol drwy gydol y flwyddyn ysgol, yn cynnig ystod gynhwysfawr o sgyrsiau a chyflwyniadau i ysgolion a cholegau yn cynnwys: manteision addysg uwch, dewis prifysgol, llywio drwy broses ymgeisio UCAS, y broses Clirio ac Addasu, awgrymiadau a thechnegau cyfweld, a chyllid myfyrwyr.

Cynigiwn hefyd gyflwyniad sy'n rhoi golwg ar fanteision astudio'n ddwyieithog yn y brifysgol.

Mae'r tîm hefyd yn bresennol mewn confensiynau UCAS, nosweithiau rhieni, digwyddiadau gyrfaoedd, ac yn trefnu ymweliadau gan ysgolion a diwrnodau blasu.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r tîm wedi siarad â miloedd o fyfyrwyr ynglŷn â symud ymlaen i addysg uwch. Y llynedd, croesawyd dros 1,200 o fyfyrwyr i Aberystwyth i gymryd rhan yn y cynllun Blas ar Fywyd Prifysgol a Phrofiad Bagloriaeth Cymru.

Ar ben hynny, rydym yn cefnogi athrawon ac ymgynghorwyr gyrfaoedd trwy ddarparu canllawiau ar gyfer ysgrifennu geirdâu UCAS. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gydag adrannau academaidd y Brifysgol sydd hefyd yn cynnig cymorth yn ymwneud â phynciau penodol i ysgolion a cholegau.

**Beth yw'r uchafbwyntiau?**

Mae ein gwaith yn amrywiol iawn. Rydym yn mwynhau cael mynd allan i siarad â myfyrwyr, rhieni ac athrawon er mwyn lledaenu'r neges am y cyfleoedd gwych a'r profiad rhagorol sydd ar gael i fyfyrwyr yn Aber.

**Beth yw'r isafbwyntiau?**

Gall trefnu cyfarfodydd tîm fod yn dipyn o her gan yn anaml iawn y mae pawb yn y swyddfa ar yr un pryd.

Ac, yn anochel, a ninnau'n cyflawni swydd sy'n golygu llawer iawn o deithio yn ôl ac ymlaen, mae eistedd mewn ambell dagfa draffig wedi dod yn brofiad cyffredin i bob un ohonom!

**Beth sydd ar y gweill ar gyfer y Tîm Cyswllt Ysgolion a Cholegau?**

Mae blwyddyn brysur arall o'n blaenau! Yn ogystal ag ymweliadau ag ysgolion a cholegau, rydym yn paratoi ar gyfer Arddangosfeydd UCAS, yn cynllunio cyfres o ddigwyddiadau cyfoethogi pwnc ledled Cymru a Lloegr, a bydd ysgolion yn ymweld ag Aberystwyth fel rhan o'n digwyddiadau Blas ar Fywyd Prifysgol a Phrofiad Bagloriaeth Cymru.



O'r chwith i'r dde: Dafydd Morse (Swyddog Cyswllt Ysgolion a Cholegau) Cathy Piquemal (Swyddog Cyswllt Ysgolion a Cholegau) David Moyle (Rheolwr Cyswllt Ysgolion a Cholegau) Teleri Lewis (Swyddog Prosiect Cyswllt Ysgolion a Cholegau) Dewi Phillips (Swyddog Cyswllt Ysgolion a Cholegau)

Aelod arall o'r tîm: Harriet Greatrex (Swyddog Cyswllt Ysgolion a Cholegau, De Orllewin Lloegr)

**Tîm Cyswllt Ysgolion a Cholegau**

www.aber.ac.uk/cy/undergrad/schools/

@Aber_Ysg

# Ethol naw academydd i Goleg Adolygu Cydweithwyr yr AHRC



Chwech o'r naw academydd o Aberystwyth sydd wedi eu hethol i Goleg Adolygu Cydweithwyr yr AHRC. (Ch-Dd) Dr Hywel Griffiths, yr Athro Peter Merriman, Dr Elin Royles, yr Athro Wini Davies, Dr Andrea

## Mae naw o academyddion y Brifysgol wedi cael eu gwahodd i wasanaethu ar Goleg Adolygu Cydweithwyr Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC).

Mae naw o academyddion Prifysgol wedi cael eu gwahodd i wasanaethu ar Goleg Adolygu Cydweithwyr Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC).

Mae aelodau'r Coleg Adolygu yn arbenigwyr sy'n cwmpasu'r ystod o feysydd ymchwil y celfyddydau a'r dyniaethau. Maen nhw'n darparu adolygiadau arbenigol o safon ar geisiadau am gyllid ac mae'r rhain yn cael eu hystyried fel rhan o brosesau penderfynu'r AHRC.

Mae'r naw academydd o Aberystwyth sydd wedi eu henwebu i fod ar y Coleg Adolygu Cydweithwyr yn gweithio naill ai yn Athrofa Daearyddiaeth, Hanes, Gwleidyddiaeth a Seicoleg y Brifysgol neu Athrofa'r Celfyddydau a'r Dyniaethau:

- Dr Berit Bliesmann de Guevara (Gwleidyddiaeth Ryngwladol)
- Dr Jeff Bridoux (Gwleidyddiaeth Ryngwladol)
- Dr Cathryn Charnell-White (Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd)
- Yr Athro Wini Davies (Ieithoedd Modern)
- Dr Hywel Griffiths (Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear)
- Dr Andrea Hammel (Ieithoedd Modern)
- Yr Athro Peter Merriman (Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear)
- Dr Elizabeth New (Hanes a Hanes Cymru)
- Dr Elin Royles (Gwleidyddiaeth Ryngwladol)

Yn ogystal â chael eu henwebu'n aelodau o'r Coleg Adolygu, mae'r Dr Berit Bliesmann de Guevara a'r Athro Peter Merriman hefyd wedi cael eu hethol ar Grŵp Rhyngwladol Coleg Adolygu Cydweithwyr yr AHRC.

Caiff adolygwyr rhyngwladol eu penodi i baratoi adolygiadau o gynigion ymchwil sydd â chyd-destun rhyngwladol.

Bydd yr aelodau sydd newydd eu penodi i Goleg Adolygu Cydweithwyr yr AHRC yn gwasanaethu am dymor o dair blynedd o 1 Ionawr 2017 tan 31 Rhagfyr 2020.

# Penodi'r Athro Colin McInnes yn Is-Gadeirydd UNESCO yn y DG

Mae'r Athro Colin McInnes, o'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, wedi cael ei benodi yn Is-Gadeirydd Comisiwn Cenedlaethol y Deyrnas Gyfunol (UKNC) ar gyfer UNESCO.

Cafodd y penodiad ei gyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Datblygu Rhyngwladol Priti Patel AS ar 6 Rhagfyr 2017.



Mae'r UKNC yn sefydliad cymdeithas sifil annibynnol sy'n cefnogi gwaith UNESCO o ran meithrin heddwch, dileu tlodi, datblygu cynaliadwy a deialog rhyngddiwylliannol drwy addysg, y gwyddorau, diwylliant, a chyfathrebu.

Dywedodd yr Athro McInnes: "Mae'n fraint ac anrhydedd cael fy mhenodi i'r swydd hon. Nid unig waith UNESCO yw gosod safonau byd-eang ar draws addysg, y gwyddorau, diwylliant a chyfathrebu, hyrwyddo rhagoriaeth a gweithio i warchod yr hyn sydd orau; ei chenhadaeth allweddol yw hyrwyddo heddwch ym meddyliau pobl ym mhob man.

"Mae'r Comisiwn Cenedlaethol yn gweithio gyda llywodraethau'r DG a'r rhai datganoledig, a gyda phencadlys UNESCO i hyrwyddo'r gwerthoedd hyn yn lleol ac yn fyd-eang - o Fiosffer y Ddyfi a chasgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru sy'n rhan o raglen Cof y Byd, i fentrau byd-eang ym maes addysgu at ddibenion datblygu cynaliadwy a rheoli trawsnewidiadau cymdeithasol."

Mae'r Athro McInnes wedi bod yn Gyfarwyddwr Anweithredol yr UKNC gyda chyfrifoldeb arbennig ar gyfer y gwyddorau cymdeithasol a dynol ers 2014.

# Gwobr Y Gymdeithas Frenhinol i Fathemategydd

Mae'r Athro Gennady Mishuris, Athro Modelu Mathemategol yn Adran Mathemateg, wedi ennill Gwobr Teilyngdod Ymchwil Wolfson y Gymdeithas Frenhinol.

Mae'r wobr yn darparu hyd at bum mlynedd o gyllid i gefnogi ymchwil o'r radd flaenaf yn y DG.

Yn wreiddiol o'r Undeb Sofietaidd ac yna Gwlad Pŵyl, derbyniodd yr Athro Mishuris ddoethuriaeth o Brifysgol Leningrad (Prifysgol St Petersburg erbyn hyn) a gradd Doethur mewn Gwyddoniaeth o Brifysgol Technoleg Cracow.

Mae'n ymuno â rhestr o ymchwilwyr enwog sydd wedi cael eu cydnabod gan y Gymdeithas Frenhinol.



Mae gwaith diweddaraf yr Athro Mishuris wedi arwain at ddatblygiadau arwyddocaol yma maes diagnosis llid y cymalau - cyflwr sy'n effeithio ar tua thraean o bobl 45 oed a hŷn yn y DG.

Gwnaeth hefyd waith pwysig ar fodelu mathemategol a rhifiadol ym maes hollti hydrolig, sef defnyddio hylif i ledaenu craciau mewn deunydd solet.

O ganlyniad i'r wobr hon, bydd yr Athro Mishuris nawr yn gweithio ar ddadansoddi dulliau deinamig o hollti meta ddeunyddiau. Mae'r strwythurau cymhleth yma yn gallu cael eu defnyddio i greu dyfeisiadau mantellu neu ailgyfeirio tonnau o wahanol natur ac ynni, ac fe allai'r rhain gael eu defnyddio i ddiogelu adeiladau rhag effeithiau daeargrynfeydd.

# Proffil Person

## Mae Mohamed Cheggaf, sy'n dod yn wreiddiol o Morocco, yn gweithio i Wasanaethau'r Campws yn borthor yn Adeilad Hugh Owen.



**Beth yw'ch barn chi am weithio yn y Brifysgol?**
Rydw i wrth fy modd! Mae pawb mor gyfeillgar yma. Mae'n lle mor hyfryd i weithio ynddo.

**Rydyn ni'n deall nad oeddech chi'n gallu siarad Saesneg na Chymraeg pan gyrhaeddoch chi yma, a'ch bod chi wedi dysgu siarad y ddwy iaith erbyn hyn.**
Digon gwir - pan gyrhaeddais i Gymru o Morroco yn 2006, allwn i ddim siarad gair o Saesneg na Chymraeg.

Yna fe gwrddais â'm gwraig, sy'n athrawes yn Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth ac yn Gymraes rugl. Dechreuais ddysgu Cymraeg drwy siarad â hi.

Rydw i mor hapus am fy mod i'n gallu siarad Cymraeg a Saesneg yn rhugl erbyn hyn. Rydw i'n gartrefol iawn wrth siarad y naill iaith a'r llall nawr, er y byddaf yn cymysgu rhyngddynt ar adegau!

**Pa ieithoedd eraill rydych chi'n eu siarad?**
Rydw i'n siarad Arabeg, Ffrangeg a Berbereg. Berberiad yw fy mam ac Arab yw fy nhad. Mae peth o'r Ferbereg yn swnio'n debyg i'r Gymraeg, gyda seiniau megis 'ch' - dyna pan rwy'n credu ei bod yn hawdd i mi siarad Cymraeg. Weithiau bydd pobl yn gofyn i mi os mai hanner Cymro ydw i!

**Ydych chi'n siarad Cymraeg gartref?**
Ydw. Mae fy merch sy'n chwech oed a fy mab sy'n wyth oed yn mynd i'r Ysgol Gymraeg ac yn tyfu i fyny'n siaradwyr Cymraeg.

**Fyddwch chi'n defnyddio'r Gymraeg yn eich gwaith?**
Byddaf, byddaf yn siarad Cymraeg â 'nghydweithwyr ar adegau, yn arbennig staff yr Adran Gymraeg.

**Beth yw'r her nesaf sy'n eich wynebu?**
Wel, rydw i wedi pasio fy mhrawf gyrru ac wedi dod yn ddinesydd Prydeinig. Nawr, fe hoffwn i fynd i ddosbarth i wella safon fy Nghymraeg, yn arbennig fy Nghymraeg ysgrifenedig.

# Rhedeg ras 10k Aber er cof am yr Athro Mike Foley



Bu tîm o'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn rhedeg ras 10K Aberystwyth ar ddydd Sul 11 Rhagfyr, 2016 er cof am gyn-bennaeth yr Adran yr Athro Mike Foley a fu farw ym mis Awst 2016.

Mae cyn-gydweithwyr, myfyriwr, cyn-fyfyrwraig a dau o blant Athro Foley yn rhan o'r tîm o naw a fu'n codi arian i un o brif elusennau canser y gwaed, *Bloodwise*.

Ymunodd yr Athro Foley â Phrifysgol Aberystwyth yn 1974 fel darlithydd mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth America, a gwasanaethodd y Brifysgol am dros 40 mlynedd mewn amryw ffyrdd.

Chwith i'r dde: Huw Lewis, Elin Royles, Patrick Finney, Neil Glasser a Milja Kurki

# Cynigion a Gostyngiadau Pris gyda cherdyn NUS Extra

Oeddech chi'n gwybod bod hawl gan staff, yn ogystal â myfyrwyr, i gael gostyngiadau pris sylweddol gyda cherdyn NUS Extra?

Dim ond £12 y flwyddyn yw pris y cerdyn, ac fe gewch fanteisio ar gannoedd o gynigion a gostyngiadau unigryw mewn siopau poblogaidd. Mae'r gostyngiadau'n cynnwys: 10% yn archfarchnadoedd y Co-op, 5% o ostyngiad yn Amazon.co.uk, gostyngiad o 25% gyda National Express, a 10% o ostyngiad yn Superdrug.

I gael manylion llawn yr holl arbedion sydd ar gael ewch i wefan yr NUS yn www.nus.org.uk/cy/nus-extra/discounts.

Gallwch fynd i Undeb y Myfyrwyr i brynu cerdyn wrth y ddesg groeso, lle y gellir tynnu eich llun ac y bydd eich cerdyn yn cael ei argraffu wrth ichi aros.

# Cymrawd y Sefydliad Marchnata Siartredig



Dyfarnwyd Cymrodoriaeth y Sefydliad Marchnata Siartredig (CIM) i Julie McKeown, Cyfarwyddwr Marchnata Dros Dro'r Brifysgol. Mae'r CIM, corff marchnata proffesiynol mwyaf yn y byd, yn dyfarnu cydnabyddiaeth broffesiynol ar sail cyfuniad o brofiad a/neu gymwysterau. Er mwyn derbyn Cymrodoriaeth, mae angen i unigolyn gyflawni Diploma Ôl-raddedig Proffesiynol y CIM, ennill deng mlynedd o brofiad strategol uwch gydag o leiaf bum mlynedd ar safon cyfarwyddwr neu safon athro, ac wedi cynnal statws Marchnatwr Siartredig am bum mlynedd.

# Ysgrifau Coffa

**David Bryan James (1929-2016)**

Bu David Bryan James yn aelod ffyddlon o staff dysgu'r hen Adran Botaneg Amaethyddol a'i brif ddiddordeb academaidd oedd edrych ar effaith ffactorau amgylcheddol ar dyfiant planhigion a chnydau.

Ym 1958 fe briododd David ag Eleanor M Jones o Aberystwyth oedd yn gyn-fyfyrwraig yn y Brifysgol. Fe ddaeth y diweddar Dr Eleanor James yn fathemategydd o fri a roddodd wasanaeth hir i'r Adran Fathemateg.

**Rhiannon Hughes (1937-2016)**

Ymunodd Rhiannon â Choleg Prifysgol Cymru Aberystwyth, fel ag yr oedd bryd hynny, ym mis Medi 1953 fel ysgrifenyddes i Lyfrgellydd y Brifysgol Mr Arthur ap Gwynn.

Yn ystod ei gyrfa bu'n gweithio i ddau lyfrgellydd arall yn y Brifysgol, Dr Hywel D Emanuel a Mr William Dieneman, cyn ymuno â Gwasanaethau Gwybodaeth yn 1995, pan ddaeth yn ysgrifenyddes i Dr Mike Hopkins, Cyfarwyddwr cyntaf GG.

Erbyn iddi ymddeol yn Ebrill 2002, roedd Rhiannon wedi gwasanaethu'r Brifysgol am 49 mlynedd.

# Dyrchafiadau Academaidd 2016

Llongyfarchion i aelodau canlynol y staff academaidd a ddyrchafwyd yn dilyn cwblhau'r broses Dyrchafiadau Academaidd 2016:

**Mae'r canlynol wedi eu dyrchafu yn Athro:**


Yr Athro Wini Davies, *Ieithoedd Modern, ILLCA*


Yr Athro Nigel Holt, *Seicoleg, IGHPP*


Yr Athro Alison Kingston-Smith, *IBERS*


Yr Athro Andrew Thomas, *Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, IGHPP*

**Mae'r canlynol wedi eu dyrchafu i swydd Darllenydd:**


Dr Hazel Davey, *IBERS*


Dr Berit Bliesemann De Guevara, *Gwleidyddiaeth Ryngwladol, IGHPP*


Mrs Nerys Fuller-Love, *Ysgol Fusnes Aberystwyth, IBL*


Dr Louise Marshall, *Saeneg ac Ysgrifennu Creadigol, ILLCA*


Dr Jamie Medhurst, *Theatr, Ffilm & Theledu, ILLCA*


Dr George Petropoulos, *Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, IGHPP*


Dr Michael Rose, *IBERS*


Dr John Scullion, *IBERS*


Dr Kristan Stoddart, *Gwleidyddiaeth Ryngwladol, IGHPP*


Dr Eryn White, *Hanes a Hanes Cymru, IGHPP*


Dr David Whitworth, *IBERS*

**Mae'r canlynol wedi eu dyrchafu i swydd Uwch Ddarlithydd:**

Dr Maurice Bosch, *IBERS*
Dr T Robin Chapman, *Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, ILLCA*
Dr Andrew James Davies, *Ysgol Addysg, IEGPD*
Dr Andrew Filmer, *Theatre, Film & Television Studies, ILLCA*
Dr Matthew Hegarty, *IBERS*
Dr Antonia Ivaldi, *Seicoleg, IGHPP*
Dr Tim Langdon, *IBERS*
Dr Sarah Lindop, *Ysgol Fusnes Aberystwyth, IBL*
Dr Russ Morphew, *IBERS*
Dr Kyriaki Remounou, *Ysgol Fusnes Aberystwyth, IBL*
Dr Olusanya Olaoluwa, *Ysgol Gyfraith Aberystwyth, IBL*
Dr Beth Rodgers, *Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, ILLCA*
Dr Elin Royles, *Gwleidyddiaeth Ryngwladol, IGHPP*
Dr Ifat Parveen Shah, *IBERS*
Dr Martin Swain, *IBERS*
Dr Christopher Webster, *Ysgol Gelf, ILLCA*
Ms Sarah Wydall, *Ysgol Gyfraith Aberystwyth, IBL*

# Penodiadau

## Croeso cynnes i gydweithwyr sydd wedi ymuno â'r Brifysgol yn y misoedd diweddar, gan gynnwys:

**DATBLYGU YSTADAU**




Ymunodd **Andrea Pennock** Pennock â'r Brifysgol fel Cyfarwyddwr Datblygu Ystadau, ar 1 Rhagfyr. Cyn hynny, bu'n Uwch-Arweinydd Categori Gwasanaeth Masnachol y Goron, Swyddfa'r Cabinet, Llundain, yn rheoli gwariant Rheolaeth Cyfleusterau ar ran y Llywodraeth Ganolog. Cyn hynny, bu'n bennaeth Rheolaeth Ystadau a Chyfleusterau DVLA, ac yn gyfrifol dros dîm o 90 o staff mewnol yn ogystal â thîm mawr o gontractwyr. Yn ogystal â chyflawni swyddi sy'n gysylltiedig ag Ystadau, mae ganddi hefyd nifer o flynyddoedd o brofiad ym maes caffael y sector cyhoeddus.



Penodwyd **Andrew Thomas** yn Rheolwr Gwelliannau (Adeiladau Hanesyddol). Enillodd Andrew radd Rheoli Adeiladau a Thechnoleg yn 1993, a dechreuodd ei yrfa yn gweithio ar nifer o brosiectau adeiladu mawr. Treuliodd bum mlynedd yn gweithio ym maes Rheoli Cyfleusterau yn sefydliadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn, a thair blynedd ar ddeg yn adran Grantiau Cyngor Sir Ceredigion. Bu'n gweithio i gymdeithas tai leol tan iddo ymuno â Datblygu Ystadau ym mis Medi.

**GWASANAETHAU CYMORTH I FYFYRWYR**



Mae **Lynn Green** wedi ymuno â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr yn y Ganolfan Groesawu fel Ymarferydd Iechyd Meddwl/Lles. Mae Lynn yn weithwraig gymdeithasol gofrestredig sy'n arbenigo ym maes iechyd meddwl. Ymhlith ei swyddi diweddar y mae iechyd meddwl acíwt a pharhaus (Allgymorth Grymusol), tîm iechyd meddwl yn y gymuned a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc fforensig. Mae gan Lynn hefyd brofiad o weithio gyda gofalwyr, gofalwyr ifainc, troseddau ieuenctid a than yn ddiweddar fel gweithwraig ieuenctid yn y gwasanaethau ieuenctid statudol. Bu Lynn hefyd yn gweithio ym Mhrifysgol Warwick ym maes llywodraethiant ymchwil, rhaglenni moeseg ac ymchwil ac ar ymchwiliad llywodraethol i greadigrwydd a diwylliant mewn addysg.

**ATHROFA'R GWYDDORAU BIOLEGOL, AMGYLCHEDDOL A GWLEDIG**



Mae **Dr Karen Cameron** wedi ymuno ag IBERS fel cymrawd ymchwil ôl-ddoethurol trwy gymrodoriaeth ar y cyd rhwng Marie Skłodowska-Curie Actions a Sêr Cymru II. Bydd ei gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar ecoleg ficrobaidd a lleihau albedo arwynebau rhewlifol. Mae Karen wedi gweithio ym Mhrifysgol Copenhagen a Phrifysgol Washington, Seattle.

**ADRAN DAEARYDDIAETH A GWYDDORAU DAEAR**



Mae'r **Athro Karina Sand** wedi ymuno â'r adran fel Cymrawd Ymchwil Sêr Cymru II. Mae ganddi ddoethuriaeth o Brifysgol Copenhagen ac mae hi newydd ddychwelyd i Ewrop ar ôl treulio tair blynedd yn ymchwilio yn UDA. Mae ei diddordebau ymchwil yn cynnwys ffurfiant a thwf mwynau mewn systemau naturiol ac yn arbennig y prosesau a'r mecanweithiau sy'n digwydd ar y rhyngwyneb bio-mwynol.

**ADRAN SEICOLEG**



Mae **Dr Zhimin He** wedi ymuno â'r adran fel Darlithydd. Roedd Zhimin yn ymchwilydd ôl-ddoethurol a chymrawd ymchwil ym Mhrifysgol Nottingham, Prifysgol Warwick, a Choleg King's Llundain. Mae ei gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar mHealth (iechyd symudol) ym maes iechyd meddwl.



Mae **Dr Jiaqing O** â'r adran yn ddiweddar fel Darlithydd ar ôl cyfnod byr fel cymrawd ôl-ddoethurol mewn Seicoleg Esblygol ym Mhrifysgol Reolaeth Singapore. Graddiodd o Brifysgol Genedlaethol Singapore, ac ennill ei ddoethuriaeth mewn Seicoleg Glinigol (gan ganolbwyntio ar Safbwyntiau Esblygol) o Brifysgol Genedlaethol Awstralia yn 2015.

**ADRAN GYFRIFIADUREG**



Mae **Dr David Hunter** fel Darlithydd Cyfrifiadureg. Cwblhaodd ddoethuriaeth mewn Cyfrifiadureg ym Mhrifysgol St Andrews. Bu'n ymchwilydd ôl-ddoethurol yn yr ysgol Seicoleg a Niwrowyddoniaeth ac yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Caeredin Napier. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys dirnadaeth weledol a dysgu trwy beiriant.




Ymunodd **Raphael Braud** â'r adran ym mis Medi fel Cydymaith Ymchwil Ôl-ddoethurol ar y prosiect MoDeL, yn gwneud gwaith ymchwil ar ddysgu datblygol ar gyfer robotiaid dynolffurf trwy ryngweithio â gwrthrychau ac offer. Mae gan Raphael MSc mewn Systemau Deallus a Roboteg o Brifysgol Cergy-Pontoise, Ffrainc, ac mae'n astudio ar gyfer doethuriaeth mewn Roboteg Ddatblygol ar fodelu mecanweithiau gwybyddol a dulliau sensorimotor ar gyfer rheoli motor a defnyddio offer mewn babanod, yn yr un sefydliad.

**YSGOL Y GYFRAITH ABERYSTWYTH**



Penodwyd **Dr Lowri Cunnington Wynn** yn ddarlithydd cyfrwng Cymraeg ym maes Troseddeg yn Ysgol y Gyfraith Aberystwyth. Derbyniodd ysgoloriaeth gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2008 i gwblhau ei doethuriaeth. Mae hi wedi gweithio'n bennaf yn y sector ymchwil cymdeithasol gan gyflawni swyddi ôl-ddoethurol ym Mhrifysgol Bangor a gyda Chomisiynydd y Gymraeg.

**ADRAN IEITHOEDD MODERN**



Mae **Dr Jennifer Wood** wedi ymuno â'r adran fel Darlithydd mewn Sbaeneg. Graddiodd o Brifysgol Aberystwyth (BA, MA, PhD) a bu'n dysgu ym Mhrifysgol Maynooth (NUIM) a Phrifysgol Genedlaethol Iwerddon, Galway. Mae ei gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar Farddoniaeth Sbaeneg yr 20fed ganrif, avant-garde Sbaen, ffilm Sbaenaidd, alltudiaeth Cymry Patagonia ac etifeddiaeth ddiwylliannol Rhyfel y Malvinas. Un o'i diddordebau ymchwil eraill yw dysgu ac addysgu iaith.

### CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH



Bydd **Steffan Jones-Hughes** yn dechrau yn ei swydd yn Rheolwr y Celfyddydau Gweledol (Curadur) ar 1 Tachwedd. Treuliodd Steffan ddeuddeg mlynedd yn datblygu ecoleg gelfyddydol a diwylliannol Wrecsam, yn y Ganolfan Brintiadau Ranbarthol yn gyntaf ac yn fwyaf diweddar yn Oriel Wrecsam. Bu'n gweithio i nifer o fudiadau'r celfyddydau yn cynnwys Cyngor y Celfyddydau Lloegr, Tate, Whitworth, Oriel Davies, ac mewn prifysgolion yng ngogledd Lloer. Fel arlunydd, mae ganddo waith mewn casgliadau cyhoeddus a phreifat ac mae wedi arddangos yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

### CYHOEDDWR ADNODDAU ADDYSG (caa)



Penodwyd Swyddog Marchnata a Gwerthiant newydd, **Stephanie Harrand**, i'r GAA (Cyhoeddwr Adnoddau Addysg). Enillodd Stephanie radd BA (Anrhydedd) Dosbarth Cyntaf o Adran y Cyfryngau, Diwylliant a Newyddiaduriaeth Prifysgol De Cymru, a bu'n Rheolwr Marchnata i gwmni lleol cyn ymuno â'r GAA ddiwedd Hydref 2016.

# Arddangosfeydd yr Ysgol Gelf 6 Mawrth - 12 Mai, 2017

Mae Oriel yr Ysgol Gelf ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener, 10am - 5pm. Mynediad yn rhad ac am ddim.
Bydd yr Oriel ar gau dros y Pasg.

## From the Life Room: Art School figure drawings and studies since 1800

Am ganrifoedd ystyriwyd bod dylunio'r ffurf ddynol yn yr ystafell fywluniadu yn rhan hanfodol o hyfforddiant proffesiynol artistiaid. Mae dosbarthiadau bywluniadu'n parhau'n rhan bwysig yn hyfforddiant artistiaid yn Aberystwyth. Gellir dadlau mai lluniadu'r corff yw'r prawf eithaf o gydweithrediad llaw a llygad, deheurwydd a mynegiant myfyriwr.

Mae'r arddangosfa hon o luniadau a pheintiadau sy'n dod yn bennaf o gasgliad Amgueddfa'r Ysgol Gelf yn cynnig mewnwelediad i arferion dylunio yn ysgolion celf Prydain yn ystod y ddwy ganrif ddiwethaf. Bydd gwaith gan William Etty, Christopher Wiliams, Hugh Blaker, John Elwyn, John Minton a Keith Vaughan yn ogystal â gwaith cyn-fyfyrwyr Aberystwyth yn cael ei ddangos ochr yn ochr ag ategion ystafell fyw a chymhorthion dysgu: castinau plastr o gerfluniaeth hynafol, ysgerbwd, llawlyfrau anatomi a modelau.

Bywluniad o ddechrau'r 20fed ganrif gan Hugh Blaker, arlunydd, gwerthwr, ac un a fu'n cynghori'r chwiorydd Davies, Gregynog



## Cutting Edge: British Artists and the New Printmaking, 1960s to 1980s

Mae'r arddangosfa hon yn bwrw golwg ar yr hyn oedd yn digwydd ar flaen y gad ym maes llunio printiau ym Mhrydain o'r 1960au tan yr 1980au cynnar. Fe'i dewiswyd yn bennaf o Gasgliad Celf Prifysgol Aberystwyth a elwodd oddi wrth anrheg o brintiau gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn 2002.

Yn y 1960au, trodd artistiaid Prydeinig eu cefnau ar dechnegau traddodiadol o weithio, nid yn unig wrth baentio a cherflunio ond wrth lunio printiau yn ogystal. Bu adfywiad mewn llunio printiau yn ystod degawdau cyntaf yr ugeinfed ganrif, a phwyslais ar ysgythru a oedd yn gofyn am allu i lunio ffurfiau neu dirwedd gwirioneddol fedrus yn ogystal â medrusrwydd yn elfennau'r grefft o lunio printiau.


Yn y 1960au dechreuodd artistiaid Prydeinig ddefnyddio sgrin-brintio a oedd yn gweddu i Haniaethwyr Caledlin a delweddaeth Celfyddyd Bop, wedi eu hysbrydoli gan esiampl artistiaid Americanaidd oedd yn gweithio yn Efrog Newydd yn gynharach yn y ddegawd. Enillodd 'Op Art', gyda'i ddefnydd o streipiau a dotiau, lawer hefyd oddi wrth natur ddiwydiannol a glân printio sgrin sidan. Ar yr un pryd, roedd arbrofion newydd ym maes lithograffi a chyfuniadau o dechnegau, yn aml yn cynwys ffotograffau a gludwaith, yn golygu bod llunio printiau ym Mhrydain yn ddull bywiog a chyffrous.

Mae'r arddangosfa yn cynnwys gwaith gan Geoffrey Steele, Ian Hamilton Finlay, William Scott, John Piper a Bridget Riley.



Derrick Greaves, *Abstract Painting with Fruit*, 1979 (print sgrîn).

# Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth




*The Colors of the Mountain*, rhan o Ŵyl Ffilm Cymru a'r Byd

## Storïau Pobl

### Y gwanwyn a'r haf hwn bydd Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn cyflwyno ei thymor Storïau Pobl.

Dewiswyd ystod o waith sy'n edrych ar ac yn dathlu llawer o storïau personol gan gynnwys, Every Brilliant Thing, sioe syndod o galonnog am deuluoedd ac iselder - a oedd yn llwyddiant ysgubol yng Ngŵyl Caeredin, noswaith o ganeuon a thrafodaeth am unigrwydd gyda George Monbiot, a Meet Fred, sioe siarp a hynod ddoniol a oedd yn llwyddiant rhyfeddol yng Ngŵyl



*F.E.A.R Mr Clark*, dydd Mercher 8 Mawrth

Caeredin am byped dwy droedfedd o faint sy'n ymladd bob dydd yn erbyn rhagfarn.

Ochr yn ochr â hyn ceir yr arddangosfa bwysig Stitched Voices/Lleisiau Wedi eu Pwytho yn dangos tecstiliau a gynhyrchwyd drwy wrthdaro ac ar gyfer heddwch, ac yn y Sinema bydd Gŵyl Ffilm Cymru a'r Byd yn rhoi sylw i storïau am wrthwynebiad personol ar draws y byd.

O fywydau pobl sy'n goresgyn gwrthdaro hyd storïau twymgalon am fywyd bob dydd, mae digon yn Storïau Pobl i wneud i ni feddwl, chwerthin a chrïo.

# Arddangosfeydd

## Pumed Gainc / A Fifth Branch: Chwedlau o lyfr coll Cymru

### tan 18 Mawrth 2017, Oriel 2

Arddangosfa a gomisiynwyd yn arbennig yw'r Pumed Gainc o gelf darlunwyr Ceredigion a ysbrydolwyd gan themâu cyfoes a archwiliwyd yn Y Prosiect Mabinogi yn 2015.

Drwy gloddio i gyfrinachau dirgel yn chwedlau gwerin coll Cymru, ceir hanesion am bobl yn cael eu troi yn elyrch, mudo gorfodol pobl, botaneg prydferthwch, dynion sarhaus a merched nerthol, consuriaeth a dewiniaeth, diodydd a pheiriau, gan ddefnyddio maplunio, llyfrau haenog, tapestrïau, crankies, gwrthrychau, animeiddio, ffilm, dyluniad byw estynedig, adrodd storïau a pheintio.

Mae'r arddangosfa yn cynnwys gwaith gan Lizzie Spikes, Maria Hayes, Michael Roberts, Naomi Heath, Patricia Moffett, Patti Keane, Peter Stevenson, Ruth Jên Evans, Sarah Byfield, Saoirse Morgan, Sian Bowman, Teresa Davies, Tereska Shepherd, Valériane Leblond, Veronika Derkova.

Yn ystod y penwythnos 9-12 Mawrth, bydd yr arddangosfa yn ganolog i Ŵyl Adrodd Storïau Aberystwyth - penwythnos o chwedlau, ffilmiau, arddangosfeydd, sgyrsiau a cherddoriaeth - pan fydd storïau yn cael eu hadodd yn y gofod arddangos, ac y bydd y darlunwyr yn creu arddangosfeydd ychwanegol o luniadau byw a thafluniadau.





*Car Park*, Barbara Howey

## Edgelands


### tan 18 Mawrth, Oriel 1

Mae'*Edgelands* yn cyflwyno gwaith chwech o artistiaid gweledol sy'n ystyried ac yn cofnodi'r tiroedd diffaith a'r tir a esgeulisir ar ymylon ein trefi. Ystadau tai, parciau adwerthu ar gyrion trefi a safleoedd diwydiannol, dyma'r 'unnamed and ignored landscapes...places where our slipstream has created a zone of inattention'* ac eto dyma'r llefydd lle mae pob math o ddiddordeb a phrydferthwch yn ffynnu.  Mae'r gwaith a gyflwynir yma yn ystyried y corneli angof hyn o'n tirwedd trwy baentio, cerddoriaeth ddawns a'r gair ar lafar.

*Paul Farley a Michael Symmons-Roberts, cyd-awduron y llyfr *Edgelands*.

Gofalwch gymryd copi o bamffledyn y gwanwyn Canolfan y Celfyddydau. Mae'r pamffled ar gael hefyd ar y wefan:

www.aberystwythartscentre.co.uk




Chwith: Valériane Leblond, *Y Neges*, gouache a dyfliwiau ar bapur fabriano